# Cofnodion

## Cabinet

Dyddiad: Dydd Mercher, 7 Gorffennaf 2021

Amser: 4.00 pm

Bresennol: Cynghorwyr J Mudd (Cadeirydd), J Hughes, Councillor R Jeavons, P Cockeram, D Harvey, D Mayer, Councillor R Truman, D Davies and M Rahman

Yn bresennol:

Ymddiheuriadau: Cynghorwyr

---

1 **Ymddiheuriadau dros Absenoldeb**

Ni dderbyniwyd yr un.

2 **Datganiadau o ddiddordeb**

Ni dderbyniwyd yr un.

3 **Cofnodion y Cyfarfod Diweddaf**

Derbyniwyd cofnodion 16 Mehefin 2021 fel rhai cywir.

4 **Adroddiad Diwedd Blwyddyn Rheoli'r Trysorlys - 2020/21**

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad. Yr oedd yr adroddiad hwn yn cyflawni cyfrifoldeb y Cyngor i dderbyn a chymeradwyo adroddiad blynyddol ar alldro rheoli trysorlys bob blwyddyn. Yr oedd yr adroddiad yn ymdrin â'r alldro am 2020/21 ac eisoes wedi cael ei adolygu gan y Pwyllgor Archwilio lle na wnaed unrhyw sylwadau, a byddai'n mynd i'r Cyngor wedi'r cyfarfod Cabinet hwn.

Cyflwynodd yr adroddiad y wybodaeth a ganlyn:

- Manylion cyllido cyfalaf, benthyciadau, ail-drefnu dyledion a thrafodion buddsoddi
- Adroddiadau ar oblygiadau risg penderfyniadau a thrafodion y trysorlys
- Manylion y sefyllfa alldro ar drafodion rheoli'r trysorlys yn 2020/2021 oedd yn cadarnhau cydymffurfio â'r terfynau trysorlys a osodwyd gan y Cyngor.

Cafodd pandemig Covid effaith ar Reoli Trysorlys yn ystod 2020/21. Ers dyddiau cynnar y pandemig, bu'n rhaid i'r Cyngor fonitro cynnydd sylweddol mewn llif arian trwy gydol 2020/21, o roi grantiau busnes a'r Cynllun Rhyddhad Ardrethi Busnes yn benodol, a hefyd oherwydd cynnydd yn eu costau eu hunain a lefel is o incwm. Rhoddodd Llywodraeth Cymru gefnogaeth ariannol sylweddol er mwyn sicrhau bod gan Gynghorau ddigon o arian mi

weinyddu'r cynlluniau grantiau busnes a grantiau ardrethi, a buont yn ad-dalu Cynghorau trwy gydol y flwyddyn am eu cynnydd mewn grantiau a'r gostyngiad mewn incwm, yn ogystal â chyfeirio eu cefnogaeth GCD tuag at ran gyntaf y flwyddyn. Ynghyd â'r llithriad o ran cyflwyno ei gynlluniau cyfalaf ei hun a thanwario ar y gyllideb refeniw, golygodd hyn fod llif arian yn fwy positif nag mewn 'blwyddyn normal' a roes fod i lai o fenthyca a llawer mwy o fuddsoddi tymor-byr.

Ni wnaeth hyn leihau ymrwymiad y Cyngor o fod angen benthyca, ond fe arafodd y raddfa o gymryd y benthyca hwnnw tuag at lefel yr ymrwymiad.

Ar waethaf yr uchod, yn unol â'r Strategaeth Rheoli Trysorlys y cytunwyd arni, llwyddodd y Cyngor i fod yn fuddsoddwr arian tymor-byr ac i fenthyca er mwyn rheoli'r llif arian o ddydd i ddydd yn 2020/21.

I droi yn benodol at fenthyca, er bod gan y Cyngor ofynion benthyca tymor-hir sylweddol, mae strategaeth bresennol y Cyngor o dalu am wariant cyfalaf yn defnyddio 'benthyca mewnol' yn hytrach na benthyca o'r newydd lle gall. Mae'n gallu gwneud hyn oherwydd ei arian wrth gefn, ac ar 31 Mawrth 2021, yr oedd lefel y benthyca mewnol tua £107m a arbedodd, ar y cyfraddau log cyfredol, ryw £2.4m mewn costau llog blynyddol, o gymharu â benthyca'r lefel hon o arian mewn gwirionedd.

Bu'r flwyddyn ariannol yn weddol dawel o ran benthyca, fel y gwelir yn Atodiad B yr adroddiad:

- Ad-dalodd y Cyngor fenthyciad tymor-byr a gymerwyd ym Mawrth 2020 ar gyfer llif arian yn benodol ac i hwyluso talu grantiau busnes yn gynnar ym mis Ebrill. Ad-dalwyd hyn gan Lywodraeth Cymru ac ad-dalwyd y benthyciad yn ôl y bwriad ym Mehefin 2020.
- Ym Mawrth 2021 gwnaeth yr awdurdod fenthyca yn y tymor byr i dalu am weithgareddau llif arian beunyddiol normal.
- Yn olaf, roedd angen benthyca isafswm newydd yn y tymor hir yn ail hanner y flwyddyn ariannol, sef cyfanswm o £94k. Yr oedd y benthyca hwn o 'Salix', oedd yn ddi-log ac yn gysylltiedig â phrosiect effeithlonrwydd ynni penodol.

Dengys amcangyfrifon cyfredol am ein llif arian fod potensial y byddai angen mwy o fenthyca tymor hir yn ail hanner y flwyddyn ariannol gyfredol hon i dalu am y rhaglen gyfalaf, ac er bod llithriad ar hynny wedi ei gynnwys yn y rhagolygon llif arian, byddai'r hyn fyddai'n digwydd mewn gwirionedd yn y flwyddyn o ran cyflwyno prosiectau yn cael dylanwad sylweddol ar hyn. Yn benodol, byddai prosiectau mawr yng nghynlluniau Addysg Band B yn cychwyn yn y cyfnod pan fyddai benthyciadau tymor hwy yn dechrau.

I droi at fuddsoddi, strategaethau'r Cyngor yn y maes Rheoli Trysorlys hwn yw (i) bod yn fuddsoddwr tymor byr a gwerth cymharol isel, sy'n gyson â dilyn 'strategaeth benthyca mewnol' a (ii) dylai blaenoriaethau buddsoddi fod yn ddiogelwch, hylifedd ac elw, yn y drefn honno.

Yr oedd pob buddsoddiad ar hyn o bryd yn rhai dros dro, ac wedi eu gosod mewn sefydliadau diogelwch uchel, yn unol â'n strategaeth arall yn y maes hwn. Fel ar 31 Mawrth 2021 rhoddwyd £15m gyda gwahanol awdurdodau lleol ac £9.8m gyda banciau a chymdeithasau adeiladu.

Yn olaf, y Dangosyddion Cynghorus. Mesurodd yr awdurdod a rheoli pa mor agored ydoedd i risgiau rheoli trysorlys gan ddefnyddio gwahanol ddangosyddion, sydd i'w gweld yn Atodiad B. Cadarnhaodd yr adroddiad hwn fod y Cyngor wedi cydymffurfio â'r Dangosyddion Cynghorus am 2020/21, fel y'u gosodwyd ym mis Chwefror 2020 fel rhan o'r Strategaeth Rheoli Trysorlys.

<u>Penderfyniad:</u>

Fod y Cabinet yn:

1. Nodi a gwneud sylwadau am yr Adroddiad Blynyddol Rheoli Trysorlys am flwyddyn ariannol 2020/21.
2. Nodi a gwneud y sylw fod Dangosyddion Cynghorus 2020/21 ar gyfer Rheoli Trysorlys yn unol â'r hyn a osodwyd gan y Cyngor ym mis Chwefror 2020.

5 **Alldro Cyllideb Refeniw - 2020/21**

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad. Yr oedd yr adroddiad yn gosod allan sefyllfa alldro derfynol yr awdurdod am flwyddyn ariannol 2020/21 a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021.

Bu 2020/21 yn flwyddyn hollol wahanol i bob un arall. Wrth i bandemig Covid ddatblygu fel tân gwyllt o Fawrth 2020 ymlaen, ail-flaenoriaethwyd gwasanaethau i ddelio â'r ymateb yn y fan a'r lle i gefnogi cymunedau ledled Casnewydd, a pharhaodd hyn, i wahanol raddau, trwy gydol y flwyddyn ariannol. Er i gostau sylweddol ddod i'n rhan er mwyn cyflwyno'r ymateb hwn i'n cymunedau, talodd Llywodraeth Cymru y costau hyn.

Nid yn unig y bu'r cyngor yn gweithio'n agos gyda'r sector cyhoeddus yng Nghymru i gefnogi cymunedau a busnesau ledled Cymru, ond buom hefyd yn asiant i Lywodraeth Cymru, gan brosesu gwerth £51m o daliadau cefnogi ar draws nifer o gynlluniau'r llywodraeth, ynghyd â £20m yn ychwanegol o 'wyliau' o ardrethi busnes i'r sectorau hamdden a lletygarwch.

Digwyddodd y tanwariant o £14m yn bennaf am i wasanaethau gael eu dargyfeirio o'u gweithgareddau arferol i roi blaenoriaeth i'r ymateb i Covid. Yn benodol:

- Derbyniodd y cyngor tua £23m o arian unwaith-am-byth Llywodraeth Cymru i wneud iawn am gostau ychwanegol ddaeth i'w rhan mewn ymateb i'r pandemig a'r incwm a gollwyd oherwydd cyfyngiadau Covid;

- Bu cryn danwariant ar draw syr holl feysydd gwasanaeth oherwydd newidiadau mewn darparu gwasanaethau ac arferion gweithio; ac

- Yn gysylltiedig â'r uchod, bu tanwariant yn erbyn y gyllideb refeniw gyffredinol wrth gefn, cynllun gostwng treth y cyngor ac incwm o dreth y cyngor - a'r rhain oll yn gyllidebau heb fod yn rhai gwasanaeth.

Codwyd rhai materion unigol a rhai a ddigwyddodd dro ar ôl tro yn yr adroddiad, y byddai'r swyddogion yn ymdrin â hwy: er enghraifft, cyflwyno arbedion. Tra cyrhaeddwyd 82% o'r targed arbedion yn 2020/21, bu oedi cyn gweithredu oherwydd effaith Covid, ac yr oedd angen cynlluniau cadarn i sicrhau y bydd yr arbedion hyn yn cael eu cyflwyno'n llawn, a hefyd yr arbedion newydd y cytunwyd arnynt ar gyfer 2021/22.

Ymhellach, ni wyddom beth fydd yr effaith ar wasanaethau gweithredol oherwydd y pandemig a'r gwaith ychwanegol a grëwyd gan hyn. Er bod cronfa galedi Llywodraeth Cymru i fod i barhau am chwe mis cyntaf 2021, ni oedd yn glir beth fydd yn digwydd wedi hyn.

Yr oedd Adran 4 yr adroddiad yn esbonio'n fanwl y meysydd a allai effeithio ar y sefyllfa ariannol yn y flwyddyn gyfredol, 2021/22 a byddai angen i'r Uwch-Dîm Rheoli barhau i oruchwylio'r meysydd hyn yn benodol.

O ran sefyllfa ysgolion, yr oedd arian wrth gefn ym malansau'r ysgolion i dalu am yr amrywiadau hyn: nid oedd y tanwariant cyffredinol o £14m yn cynnwys sefyllfa'r ysgolion. Yn 2020/21, tanwariodd ysgolion o £8.4m, fyddai'n gweld eu balansau yn cynyddu o £1.1m i £9.5m fel ar 31 Mawrth 2021. Gwnaeth ysgolion arbedion sylweddol yn ystod y cyfnodau

pan oeddent wedi cau, nid yn unig am eu bod yn gallu hawlio am gostau ychwanegol Covid, ond hefyd am iddynt dderbyn dros £4.7m o grantiau annisgwyl ddiwedd Mawrth.

Gwella wnaeth y rhagolygon am falansau ysgolion yn sylweddol yn 2020/21, ac yr oedd hyn i'w briodoli yn bennaf i'r incwm grant hwnnw. Er hynny, bydd angen i ysgolion fonitro a rheoli eu cyllidebau yn effeithiol er mwyn sicrhau cynaliadwyedd ariannol gyda'u cyllid craidd at y dyfodol.

Gofynnir i'r cyfarfod hwn gymeradwyo'r modd y defnyddir y tanwariant hwn.

Bu cael yr arian unwaith-am-byth hwn yn fuddiol iawn i helpu i adfer y ddinas, ac wrth adolygu'r defnydd o danwariant, gallai'r Cabinet ystyried sut i wneud y canlynol:

- Cefnogi a buddsoddi yn ein cymunedau i adfer wedi Covid a gwella gwytnwch;
- Cefnogi a buddsoddi yn y gymuned fusnes a'r economi i adfer wedi Covid;
- Buddsoddi yn seilwaith cymunedau lleol i annog mwy o falchder a chydlynu;
- Buddsoddi yn 'seilwaith gwyrdd' y ddinas a mentrau lleihau carbon;
- Buddsoddi mwy yn asedau'r Cyngor; ac
- Amddiffyn y Cyngor trwy wella'r arian wrth gefn i liniaru risgiau.

Yn dilyn y trosolwg hwn o'n sefyllfa ariannol, yr oedd adran 5 yr adroddiad yn rhoi manylion am sut y defnyddir y £14m dan benawdau penodol cysylltiedig â gweithgaredd Covid, gwytnwch cymunedol a chydlynu, cyflwyno gwasanaethau, a lliniaru risgiau, sef:

- £500k i greu cronfa adfer gymunedol
- £500k i adnewyddu a glanhau mannau agored ledled y ddinas
- £116k yn ychwanegol i atgyweirio priffyrdd, sy'n dod â chyfanswm lefel y cyllid yn y maes hwn yn 2021/22 i £1m
- £1m o gyllid adfer gwyrdd i weithredu cynlluniau dad-garboneiddio
- Bron i £300k i atal digartrefedd
- Byddai £800k o gefnogaeth ychwanegol i ysgolion
- Ymhellach, byddai dros £4m yn cael ei neilltuo ar gyfer buddsoddi cyfalaf i gynnal twf ac adfywio ledled y ddinas.

Byddai'r balansau wrth gefn ar 31 Mawrth 2021 yn dilyn cymeradwyo'r uchod yn cynyddu i £107m - ar wahân i danwariant eleni, cafodd symudiadau arwyddocaol eraill eu crynhoi yn yr adroddiad ym mharagraff 5.4.

<u>Sylwadau Aelodau'r Cabinet:</u>

§ Soniodd y Cynghorydd y gallai Addysg ddefnyddio'r arian mewn ffordd gadarnhaol. Cyfeiriodd yr Aelod Cabinet at ymrwymiad y Cyngor i'r ddyletswydd gymdeithasol-economaidd gan Lywodraeth Cymru, yr oedd y cyngor yn ei groesawu, ac mai rhan o'r ddyletswydd hon oedd sicrhau ein bod yn ymdrin â lefelau is o iechyd, gwaith yn talu llai o ran anghydraddoldebau, a phobl mewn mwy o berygl o ddioddef troseddau. Yr oedd yr Aelod Cabinet felly yn croesawu'r cyfle a gafwyd gan y Cyngor i ganiatáu i'r Prif Swyddog Addysg gyrchu arian o fwy na £765,000 ar gyfer addysg ac i helpu i leihau anghydraddoldeb. Yr oedd yr £801,000 yn ychwanegol yn wariant annisgwyl yn Ysgol Gynradd St Andrews, ond yn angenrheidiol er mwyn sicrhau bod plant CA2 yn cael eu cadw gyda'i gilydd i gael eu haddysg mewn dull diogel a phriodol ar safle Mendelgief. Canmolodd yr Aelod Cabinet y Cyng. Jeavons a'r Pennaeth am sicrhau parhad y ddarpariaeth hon.

§ Cytunodd y Dirprwy Arweinydd fod hon yn flwyddyn hollol eithriadol, ac yr oed ddull cyllido Cyngor Dinas Casnewydd yn ystod y pandemig yn unigryw. Dal i gynyddu yr oedd ffigyrau am amrywiolyn delta, ac nid oeddem yn ddiogel eto; er hynny, yr oedd y cyngor wedi sicrhau bod arian yn cael ei reoli'n ddarbodus.

§ Cyfeiriodd y Cynghorydd Truman at y paragraff canlynol yn yr adroddiad: *Mae'r adroddiad hwn yn gwneud argymhellion i ddefnyddio'r tanwariant unwaith-am-byth i helpu'r ddinas i adfer o effaith Covid; buddsoddi yn yr economi leol a helpu i amddiffyn y Cyngor trwy wella arian wrth gefn i liniaru risgiau.* Yr oedd y staff wedi rhoi eu hunain mewn perygl, ac wedi gweithio'n gyflym ac effeithiol. Cyfeiriodd yr Aelod Cabinet at Gronfa Adfer o Covid, ac anogodd fusnesau i wneud cais. Yr oedd yn iawn i'r Cyngor gynllunio'r cyllid a dderbyniwyd i gynilo a buddsoddi at y dyfodol.

§ Cyfeiriodd y Cynghorydd Hughes hefyd at y Gronfa Adfer o Covid, gan obeithio y byddai cymunedau yn manteisio ar y cynllun ac yn cyflwyno prosiectau cyffrous. Yr oedd yn croesawu'r gefnogaeth oedd ar gael i'r cynllun Adfer Gwyrdd trwy Ddad-garboneiddio a'r cynlluniau i gefnogi'r ddinas i gwrdd â'r gofynion hyn - yr oedd yn arwydd o ymrwymiad y Cyngor i'r agenda cynaliadwyedd.

§ Ychwanegodd y Cynghorydd Cockeram, o ran y gorwariant, fod yn rhaid i rai staff mewn cartrefi plant gysgu dros nos yn y cartrefi am nad oedd neb i gymryd eu lle, a bod trafferthion cael gweithwyr ar gyfer shifftiau. Byddai'r Cyngor yn gweld gwell canlyniadau y flwyddyn nesaf oherwydd y cartrefi plant sydd bellach ar gael, a'r gost fyddai wedi disgyn ar y Cyngor petai'r gwasanaeth hwn wedi mynd allan i asiantaethau annibynnol. Yr oedd asiantaethau gofal maeth hefyd wedi gostwng, gyda gofalwyr math annibynnol yn mynd i lawr o 73% i 60%, sy'n swnio'n fach ond sy'n cael effaith gadarnhaol. Y gobaith oedd y byddai mwy o gwmnïau annibynnol yn gwneud y symudiad yma.

§ Diolchodd yr Arweinydd i'r Aelod Cabinet am bwysleisio pwysigrwydd symud at fodelau cyflwyno newydd, fyddai'n rhoi profiad gwell o lawer i'n defnyddwyr gwasanaeth, a chrybwyllodd y gwerth am arian fyddai'n deillio o hyn. Diolchodd yr Arweinydd hefyd i'r gofalwyr maeth am eu gwaith, eu cariad a'u caredigrwydd wrth gefnogi plant yng Nghasnewydd trwy eu cymryd i'w cartrefi.

Penderfyniad:

Fod y Cabinet yn:
1. Nodi'r sefyllfa alldro, oedd yn destun archwilio, a'r amrywiadau o bwys am y flwyddyn (adrannau 1-3);
2. Cymeradwyo defnyddio'r tanwariant fel sydd wedi ei osod allan yn adran 5 yr adroddiad, a nodi lefel yr arian cyffredinol a'r arian a glustnodwyd wrth gefn sydd gan y Cyngor;
3. Cymeradwyo trosglwyddo'r arian wrth gefn fel sy'n cael ei osod allan yn adran 5;
Nodi alldro'r ysgolion a'r sefyllfa am arian wrth gefn ysgolion unigol ac yn gyffredinol.

## 6 Alldro Cyfalaf ac Ychwanegiadau - 2020/21

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad. Mae'r adroddiad hwn yn dangos yr alldro cyfalaf terfynol am flwyddyn ariannol 2020/21. Yn benodol, mae'n gofyn am yr isod:

- cymeradwyo dwyn ymlaen i'r gyllideb lithriad o wariant prosiectau sy'n bod eisoes i'r flwyddyn ariannol newydd, sef £7.134m,

- cymeradwyo ychwanegu prosiectau cyfalaf newydd i Raglen Gyfalaf y Cyngor. Mae'r rhain yn arwyddocaol iawn, sef £24.795m, a

- chymeradwyo ffigyrau diwygiedig Amlinelliad o Gynllun Strategol (AGS) am raglen gyfalaf Addysg Band B i'w darparu i Lywodraeth Cymru gyda'r bwriad o adolygu fforddiadwyedd dyheadau sy'n bod eisoes ac o bosib chwilio am gyllid ychwanegol.

Yr oedd hefyd yn rhoi cyfoesiad am yr adnoddau cyfalaf oedd ar gael ar hyn o bryd (‘arian rhydd’), gan gynnwys cadarnhau cyllid grant Llywodraeth Cymru o £7m tuag at brosiect y ganolfan hamdden newydd a’i effeithiau, a’r camau a gymerwyd.

Gosododd y Cyngor raglen gyfalaf helaeth sy’n adlewyrchu ymrwymiad saith-mlynedd. Dengys tabl un yn yr adroddiad sut y newidiodd hynny dros y flwyddyn ariannol ac y mae’n dangos fod ymrwymiadau a gwariant cyfalaf y Cyngor yn y ddinas yn awr yn £274m dros einioes y rhaglen, ar draws yr holl feysydd gwasanaeth.

Dengys tabl dau yn yr adroddiad y sefyllfa yn 2020/21, sef canolbwynt yr adroddiad hwn. Mae’n cadarnhau tanwariant bychan ar brosiectau a gwblhawyd o £749k, ac yn rhoi manylion. Mae hefyd yn amlygu’r angen am lithriad ar wariant o £7.1m lle bu oedi gyda chyflwyno a gwario ar brosiectau. Adolygwyd y gyllideb gyfalaf am 2020/21 a’i gostwng dros y flwyddyn, ond digwyddodd y llithriad er hynny, ac y mae’n rhyw 21% o’r gyllideb, er bod hyn yn gyson â blynyddoedd blaenorol. Mae manylion y prif feysydd llithriad yn yr adroddiad.

Mae llithriad ar y rhaglen gyfalaf yn thema sy’n digwydd yn gyson, a gellir ei briodoli yn rhannol weithiau i gael gwybod yn hwyr am gyllid grant allanol, nad yw’n gadael llawer o amser i gyflwyno prosiectau yn yr un flwyddyn. Wedi dweud hynny, fel y dengys yr adroddiad, mae llithriad, ynghyd â’r cynnydd sylweddol mewn prosiectau newydd sy’n cael eu cynnwys yma i’w cymeradwyo, wedi cynyddu’r gyllideb i ryw £100m yn y flwyddyn ariannol gyfredol, 2021/22.

Yn amlwg, mae angen adolygu hyn a’r rhaglen gyfan o ran amseru cyflwyno. Bydd hyn yn digwydd dros yr haf ac yn gynnar yn yr hydref, a gofynnir i’r uwch swyddogion wneud hyn mor gadarn ag sydd modd - rhaid iddo fod yn realistig a chaniatáu i’r Tîm Rheoli Corfforaethol a’r Cabinet gael barn am hynny ac unrhyw broblemau a all godi.

Gofynnir i ni gymeradwyo, fel arfer, brosiectau cyfalaf newydd i’w hychwanegu at y rhaglen gyffredinol. Yn yr adroddiad hwn, mae gennym swm digynsail o ychwanegiadau, a’r mwyafrif wedi eu cyllido gan grantiau Llywodraeth Cymru, a gafodd eu cadarnhau yn unig o fis Chwefror ymlaen, a chawsant gryn effaith ar y ddinas. Yn eu plith mae:

- Bron i £1.7m ar ‘brosiectau creu lle’ sy’n cael eu datblygu ar hyn o bryd,
- Bron i £10m ar ‘gynlluniau teithio llesol’, fyddai’n hwb enfawr i deithio cynaliadwy yn y ddinas a’r cyffiniau,
- Tua £2.5m o arian ychwanegol i gynnal adeiladau ysgolion, a
- Thros £6m ar waith priffyrdd a cherbydau allyriadau isel.

Mae’r rhain i gyd yn cynnal ein blaenoriaethau allweddol, ac yr oedd yr Arweinydd yn falch fod y Cyngor yn gallu bwrw ymlaen â hwy.

<u>Sylwadau Aelodau’r Cabinet:</u>

§ Lleisiodd y Cynghorydd Cockeram ei bryder am lithriad y Grant Cyfleusterau’r Anabl (GCA), sef £344,000. Yr oedd hwn yn swm enfawr, a byddai’r cyngor wedi rhedeg allan o arian erbyn y Nadolig petai hon yn flwyddyn normal, felly yr oedd yn ddarlleniad ffug oherwydd y pandemig. Cyfeiriodd hefyd at lythyr gan Lywodraeth Cymru am brawf modd a darparu £1M o gyllid i Gymru gyfan, fyddai’n gost ychwanegol i’r cyngor. Gofynnodd yr Aelod Cabinet fell am ddod ag adroddiad i’r Cabinet.

§ Cytunodd yr Arweinydd y byddai cyfyngu ar gyfleoedd a gallu’r gwasanaethau cymdeithasol yn cael effaith ar y Cyngor ond nad oedd hyn yn adlewyrchiad ar lefel y galw am y gwasanaethau hyn.

<u>Penderfyniad:</u>

Fod y Cabinet yn:
1. Cymeradwyo’r ychwanegiadau i’r Rhaglen Gyfalaf y gofynnwyd amdanynt yn yr adroddiad (Atodiad A)
2. Cymeradwyo llithriad o £7,134k o gyllideb 2020/21 i flynyddoedd i ddod, gan nodi’r ail-broffilio fyddai’n digwydd yn sgil hyn
3. Nodi sefyllfa alldro’r gwariant cyfalaf am 2020/21
4. Cadarnhau darparu gwybodaeth i Lywodraeth Cymru am gostau rhaglen trawsnewid ysgolion Band B
5. Nodi’r adnoddau cyfalaf gweddilliol oedd ar gael (‘arian rhydd’) tan 2024/25

Nodwyd y balansau a chymeradwywyd dyrannu derbyniadau cyfalaf am y flwyddyn

7 **Ymateb i'r Normal Newydd**

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad. Ym mis Chwefror 2021, cyflwynwyd papur trafod i’r Pwyllgor Trosolwg a Rheoli Craffu dan y teitl ‘Ymateb i’r Normal Newydd’. Yr oedd hyn yn rhoi manylion am sut yr ymatebodd y Cyngor i’r pandemig, a’r buddion a’r heriau oedd yn gysylltiedig â’r ffyrdd newydd o weithio.

Cyflwynwyd papur dilynol, sef yr adroddiad i’r Cabinet, i’r PTRhC ym Mehefin 2021 i gael sylwadau.

Gofynnwyd i’r Cabinet gytuno ar gyfres o argymhellion, fyddai’n gosod cyfeiriad y sefydliad. Yr oedd y rhain yn cymryd i ystyriaeth brofiadau a thystiolaeth a gasglwyd dros y 15 mis diwethaf, ymrwymiadau’r sefydliad, cyfleoedd a gododd, disgwyliadau’r staff a gofynion deddfwriaethol.

Petai’r Cabinet yn cytuno gyda’r argymhellion, byddid yn dechrau ymgynghori gyda’r undebau llafur a’r staff i drafod unrhyw newidiadau posib i delerau ac amodau cyflogaeth, a datblygu cynlluniau mwy manwl yng nghyswllt defnyddio’r Ganolfan Ddinesig, cyn cyflwyno’r adroddiad terfynol i’r Cabinet yn yr hydref.

Ymaddasodd Aelodau a swyddogion y Cyngor eu ffyrdd o weithio er mwyn ymateb i bandemig Covid 19. Yr oedd y Cyngor yn canoli ar sicrhau diogelwch y cyhoedd, ein staff a’r Aelodau Etholedig.

Er bod hyn yn hynod heriol, fe wnaeth greu cyfleoedd i ni, fel llawer o fudiadau eraill y sectorau preifat a chyhoeddus.

Yr oedd yr adroddiad yn ymdrin â phedwar prif faes:
- Ein staff,
- Y defnydd o’n prif adeilad, y Ganolfan Ddinesig a sut yr ydym yn gweithio gyda’r cyhoedd,
- Sut y gwnaethom reoli swyddogaethau democrataidd y Cyngor, a
- Sut y gwnaethom ddefnyddio technoleg

Y penderfyniad allweddol cyntaf oedd a ddylid bwrw ymlaen â’r newidiadau diwylliannol a gweithredol a roddwyd ar waith o ganlyniad i’r pandemig, neu ynteu ddychwelyd i’r model cyn Covid.

Yr oedd cynnal yr hyblygrwydd a greodd ymateb y Cyngor i Covid wedi ein galluogi i gwrdd â’n hymrwymiad yn y Cynllun Corfforaethol o ryddhau hyd at 20% o’r Ganolfan Ddinesig i arbed arian a chreu lle i arloesedd masnachol a chymdeithasol.

Yr oedd cael mwy o staff yn gweithio o gartref neu’n agos at gartref tyn cefnogi’r agenda newid hinsawdd ac yn helpu i weithio tuag at sero net carbon. Daeth 45% o’r holl allyriadau

carbon yng Nghasnewydd o drafnidiaeth. Dangosodd yr adroddiad fod 75% o'r staff yn cymudo i'r gwaith mewn ceir cyn y pandemig.

O ran y staff, ystyriodd y cyngor ymateb y gweithwyr yn ystod y pandemig. Yr oedd llawer yn gwerthfawrogi'r cyfle i weithio'n hyblyg, a chafodd hyn effaith ar salwch ymysg staff. Fodd bynnag, yr oedd yn werth nodi nad oed y gostyngiad mewn absenoldeb oherwydd straen mor amlwg, a bod angen i ni ystyried yr effaith ar les y staff. Yr oedd y Cyngor yn ymgynghori ar hyn o bryd gyda'r undebau llafur ar Bolisi Lles yn y gwaith newydd, a dylai hyn arwain at wellau lefelau cefnogaeth i'r staff.

Tynnodd yr adroddiad sylw at y tâl posib y byddai'n rhaid ei ystyried i staff petaem yn dynodi eu cartref fel man gwaith. Dylid nodi nad oedd yr adroddiad yn dweud y dylai'r staff weithio o gartref yn unig – yr oedd manteision i ddod â'r staff at ei gilydd yn eu timau, ac yr oedd yr adroddiad yn manylu ar hyn.
Dywedodd yr adroddiad, petai'r Cabinet yn cytuno a'r argymhellion, y byddai'n rhaid i ni ymgynghori â'r staff am y canlynol:

- Datblygu Polisi Gweithio o Gartref
- Unrhyw newidiadau i'r Polisi Teithio a Chynhaliaeth
- Adolygu'r cynllun gweithio hyblyg

Byddai angen i'r Cyngor edrych hefyd ar sut i gefnogi staff gyda chyflyrau iechyd tymor-hir, yn enwedig cyflyrau iechyd meddwl, a byddai'n rhaid datblygu agwedd wahanol at ymwneud â gweithlu gwasgaredig.

Yn yr adroddiad yr oedd ymatebion gan bartneriaid o'r undebau llafur. Yr oeddent yn gyffredinol yn cefnogi'r agwedd, ond yn tynnu sylw at yr effeithiau ar les ac yn gofyn i ni hefyd edrych ar y sefydliad yn ei gyfanrwydd. Yr oedd yn bwysig nodi fod mwyafrif ein gweithwyr yn cyflwyno gwasanaethau y gellid eu disgrifio fel rhai rheng-flaen - yr oeddent yn gweithio wyneb yn wyneb a defnyddwyr gwasanaeth, yn cynnal ffyrdd y Cyngor, yn glanhau ein strydoedd, yn gweithio yn ein cymunedau. Er y byddwn yn parhau i edrych ar ffyrdd o foderneiddio eu swyddi, nid swyddi oedd y rhain y gellid eu gwneud 'o bell'. Petai'r Cyngor yn bwrw ymlaen i gam nesaf datblygu'r agwedd hon, yna byddai'n rhaid i'r swyddogion nodi'n union i bwy y byddai unrhyw drefniadau newydd yn gymwys - ond gan ganolbwyntio yn fras ar staff nad oedd yn cyflwyno gwasanaethau rheng-flaen.

Yr oedd y Ganolfan Ddinesig yn adeilad eiconig yng Nghasnewydd ac yn gartref democratiaeth leol. Fodd bynnag, nid oedd yn cael ei ddefnyddio'n llawn cyn y pandemig. Golygodd gostyngiadau sylweddol mewn staff dros y 10 mlynedd a aeth heibio mai 40% o'r adeilad oedd yn cael ei ddefnyddio cyn y cyfnod clo.

Yr oedd newid y modd yr oedd y cyngor yn defnyddio staff wedi lleihau eto y galw am le yn y Ganolfan Ddinesig. Yr oedd swyddogion yn gweithio gyda chydweithwyr o Norse i bennu'r ffurf fwyaf effeithiol o redeg ein gweithrediadau: yr oedd hyn yn cynnwys man gwaith i'r staff, y gofod critigol oedd ei angen i redeg swyddogaethau democrataidd y Cyngor a gofod hanfodol i'r cyhoedd a chyflwyno gwasanaethau yn uniongyrchol wyneb yn wyneb. Yr oedd y pwynt olaf hwn yn yr argymhellion gan y Pwyllgor Craffu yn dweud yn glir i'r swyddogion y dylai unrhyw newid i'r Ganolfan Ddinesig fod â gofyniad creiddiol o ddarparu gwasanaethau i'n trigolion.

Byddai hyn oll yn ein galluogi i ddwyn mwy o wasanaethau yn ôl i'r Ganolfan Ddinesig, ac o bosib ryddhau asedau eraill, ond byddai hefyd yn ein galluogi i wneud darpariaeth ar gyfer trydydd partïon i ddefnyddio'r lle a grëwyd.

Fel y crybwyllwyd eisoes, yr oedd awydd i greu canolfan Ddiwylliannol yn y Ganolfan Ddinesig ac awydd i ymwneud â Llywodraeth Cymru ar Gymru yn Gweithio o Bell, gan greu

Hwb gweithio o bell i'r sector cyhoeddus yn y Ganolfan Ddinesig.  Yr oedd dewisiadau hefyd i drydydd partïon eraill, a byddai gofyn i'r swyddogion ddatblygu manylion y dewisiadau hyn.

Er bod y Cyngor yn ystyried cael cyfran o'u staff yn gweithio o leoliadau lluosog, yr oeddem hefyd yn datblygu dewisiadau i sicrhau y byddai'r Ganolfan Ddinesig yn llawn.

Yr oedd trydydd rhan yr adroddiad yn ystyried swyddogaeth ddemocrataidd y Cyngor. Yr oedd y ffordd y byddai'n rhaid i ni weithredu wedi ei osod allan yn Neddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau, ac yr oedd y Tîm Gwasanaethau Democrataidd yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr yn y Gwasanaethau Digidol i wneud yn siŵr fod gennym gyfleusterau gweithio hybrid i'r Aelodau eu cyrchu, naill ai o siambrau'r Cyngor neu ystafelloedd pwyllgor, neu o'r gwaith neu gartref. Yr oedd hyn oll yn rhan o ehangu amrywiaeth mewn llywodraeth leol.

Yr oedd effeithiau ar Aelodau ynghlwm â'r newidiadau hyn, ac yr oedd yr adroddiad yn gofyn i ni gyfeirio at y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ar nifer o bwyntiau y byddai'n rhaid i'r Cyngor gytuno arnynt wedyn.

Yn olaf, yn yr adroddiad cawsom fanylion y dechnoleg oedd yn cefnogi hyn oll. Ni ofynnir i ni wneud penderfyniad am hyn gan fod y Cabinet eisoes wedi buddsoddi yn y TG angenrheidiol, a bod y buddsoddiad hwn wedi dwyn ffrwyth yn ystod y pandemig. Prawf o hyn oedd, ymhen pedwar diwrnod o gychwyn y cyfnod clo cenedlaethol ym Mawrth 2020, yr oedd gennym 1200 o staff ac Aelodau yn gweithio o bell. Ym mis Hydref, cytunodd y Cabinet hefyd i gynnig i adleoli ein Canolfan Ddata gan y byddai hyn yn gwella gwytnwch y rhwydwaith a'n systemau at y dyfodol.

Y dewisiadau o'n blaenau oedd naill ai:

1. Unwaith i gyfyngiadau Covid ddod i ben ac i'r asesiadau risg fod ar gael, byddai'r dewis o ddychwelyd at y trefniadau cyn Covid ar gael i'r Cyngor. **Neu**,
2. Derbyn model gweithredu newydd mewn egwyddor ac yn dibynnu ar ymgynghori gyda'r undebau llafur a'r staff gan adeiladu ar ein profiad o weithio yn ystod Covid.

Petaem yn cymryd Dewis 2, argymhellodd yr adroddiad y byddai'n rhaid i ni wneud y canlynol:

a. Ymgynghori ar bolisi gweithio o gartref a'r lwfans cysylltiedig i'r staff fyddai'n gweithio o gartref am o leiaf un diwrnod yr wythnos.
b. Adolygu'r cynllun gweithio hyblyg a phriodoldeb hyn at y dyfodol.
c. Datblygu cynigion i fuddsoddi mewn agweddau newydd i gefnogi staff gyda chyflyrau iechyd tymor-hir, gyda'r pwyslais ar gynnal iechyd meddwl mewn amgylchedd wedi'r pandemig.
d. Datblygu gwahanol dechnegau a thactegau i sicrhau ymwneud a gweithlu gwasgaredig.

3. Ceisio defnyddio'r Ganolfan Ddinesig i'r eithaf fel y pencadlys gweinyddol a chanoli cyfleusterau a defnyddwyr trydydd-parti posib yn yr adeilad
    a. Creu parthau yn y Ganolfan Ddinesig (fesul Maes Gwasanaeth neu Gyfarwyddiaeth) fel y gallai'r staff weithio ynghyd yn eu grwpiau proffesiynol pan fyddant yn yr adeilad.
    b. Datblygu mannau penodol i wasanaethau (mannau cyfrinachol, lleoliadau penodol i weithgareddau penodol, etc.) gan gynnwys mannau hygyrch i'r cyhoedd naill ai i alw heibio neu trwy wneud apwyntiad.
    c. Datblygu atebion technolegol i gefnogi hyn (system archebu, etc.).
    d. Datblygu agweddau at ddefnyddio'r dderbynfa a'r ystafelloedd cyfarfod.

4. Petai'r Cyngor yn cadw at fodel o weithio gwasgaredig, gofyn i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd adolygu'r darpariaethau lles presennol i sicrhau eu bod yn ddigonol a gwneud argymhellion i'r Cyngor.

5. Petai'r Cyngor yn cadw at fodel o weithio gwasgaredig, gofyn i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd a yw'r pecyn tal presennol yn ddigonol, ac os bydd angen, gwneud argymhellion i'r Cyngor.

Dewisiadau 2, 3, 4 a 5 felly oedd yn cael eu ffafrio.

Yr oedd Dewis 1 yn cyfyngu ar ein gallu i gwrdd â'n targedau lleihau carbon a rhesymoli ein hasedau. Petai'r Cabinet am gael Dewis 1, byddai angen i ni o hyd ddatblygu gallu i gynnal cyfarfodydd hybrid oherwydd gofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau, a byddai gan yr Aelodau y dewis o gyrchu cyfarfodydd o bell. Efallai y bydd gan weithwyr ddisgwyliadau o ran gweithio o bell ac o gartref na fyddai felly yn cael eu hateb.

Petai'r dewisiadau yn cael eu derbyn gan y Cabinet, byddwn yn ymgynghori gyda'r undebau llafur cydnabyddedig ar unrhyw newidiadau i bolisïau AD. Byddai adroddiad terfynol yn mynd i'r Cabinet yn yr hydref yn rhoi manylion yr ymateb i'r ymgynghoriad hwn, a chyda dewisiadau pellach am ddefnyddio'r Ganolfan Ddinesig. Byddwn hefyd yn trafod yr adolygiadau arfaethedig gyda'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd.

<u>Sylwadau Aelodau'r Cabinet:</u>

§ Dywedodd y Cynghorydd Harvey fod hwn yn adroddiad difrifol i'w ystyried, a diolchodd i'r staff am eu gwaith caled a'r modd y maent wedi ymaddasu i weithio o gartref, yn ogystal â bod yn falch o weithwyr y Cyngor. Adroddwyd am dros 30,000 achos o Covid heddiw, gyda 33 marwolaeth. Yr ydym yn dal ymhell o fod mewn sefyllfa normal ac y mae angen gwarchod y cyhoedd a'r staff. Yr oedd yr Aelod Cabinet felly yn llawn gefnogi'r ffordd newydd o weithio.

§ Adleisiodd y Cynghorydd Rahman sylwadau'r Cynghorydd Harvey, a dweud ei bod yn bwysig amlygu'r gwaith a wnaed gan y staff. Yr oedd lles y staff yn bwysig wrth i ni ddod allan o'r pandemig, felly yr oedd yn llawn gefnogi'r adroddiad. Yr oedd yn croesawu hefyd y syniad o gefnogi cyfleoedd am weithio hyblyg trwy ddefnyddio'r Ganolfan Ddinesig a dwyn i mewn drydydd partion. Y gobaith oedd y byddai'r ffyrdd newydd o weithio yn adfer peth normalrwydd i fusnesau bach yng nghanol y ddinas ac yn adfywio'r fan. Byddai'n helpu'r fasnach amser cinio i'r busnesau annibynnol hyn, oedd yn flaenoriaeth.

§ Cytunodd yr Arweinydd gyda sylwadau'r Cynghorydd Rahman ac yr oedd yn cefnogi busnesau eraill fel rhan o'r Cynllun Corfforaethol, a byddid yn croesawu busnesau i ddefnyddio'r Ganolfan Ddinesig.

§ Soniodd y Cynghorydd Mayer ei fod, fel Aelod Cabinet, wedi cefnogi symud at sefyllfa fel hon ers peth amser, ac yn cefnogi hyblygrwydd cael cydbwysedd rhwng gwaith a bywyd. Yr oedd cynnyrch staff oedd yn gweithio o gartref wedi gwella, ac ni fu effaith andwyol ar y cyngor. Ychwanegodd na ddylai'r cyngor ddychwelyd at yr hen fodel, a'i fod felly yn cefnogi'r adroddiad.

§ Pwysleisiodd y Cynghorydd Davies bwysigrwydd cydbwysedd rhwng gwaith a bywyd i'r staff; mewn arolwg diweddar gan y Cyngor, soniodd staff nad oeddent yn gallu datgysylltu oedid wrth y gwaith ar derfyn y diwrnod gwaith, ac y dylid edrych i mewn i hyn. Yr oedd effaith gadarnhaol hefyd ar y ddinas, gan i LIC nodi eu bod eisiau i 30% o weithlu Cymru weithio o bell, fyddai'n sbarduno adfywio a gweithgaredd economaidd. Byddai'n cymunedau lleol yn ogystal â chanol y ddinas yn adfywio, a gallai siopau bach ffynnu. Yn bwysicach, rhaid oedd i ni edrych ar ddad-garboneiddio'r ddinas, er mwyn bod yn garbon niwtral erbyn 2050. Yr oedd cael canolfannau i fusnesau yn y ddinas a'r Ganolfan ddinesig yn ffordd ymlaen i'r ddinas.

§ Bu'r Cynghorydd Cockeram mewn cynhadledd i blant ifanc, gyda rhyw 250 yn bresennol, ac yr oedd pobl yn falch o weld ei gilydd ac i gymdeithasu. Yr oedd cydbwysedd yn beth da, ac er ei fod yn cytuno gyda'r Cynghorwyr Mayer a Davies, nid oedd y staff weithiau yn gallu diffodd oddi wrth y gwaith, ac yr oedd colli cysylltwch cymdeithasol a phobl yn digwydd.

§ Dywedodd y Cynghorydd Truman fod hwn yn gyfle i edrych ar ffyrdd newydd o weithio. Mae angen gwerthuso'r gofod yn y Ganolfan Ddinesig, a byddai'n rhoi cyfleoedd i ystyried gwahanol ffyrdd o ddefnyddio'r adeilad. Cafodd arbedion a wnaed trwy i'r staff beidio â gweithio yn yr adeilad effaith gadarnhaol ar y Cyngor a'r staff. Yn olaf, soniodd am bwysigrwydd cadw mewn cysylltiad â chynrychiolwyr yr undebau cyn bwrw ymlaen ag unrhyw newidiadau.

§ Diolchodd y Cynghorydd Hughes i staff y cyngor am newid eu ffyrdd, ac yr oedd yn falch fod yr adroddiad hefyd yn asio â nod y ddinas o ddad-garboneidido. Yr oedd yn cefnogi argymhellion yr adroddiad ac yn hyderus y deuwn o hyd i ffyrdd o gefnogi'r staff.

§ Yr oedd y Prif Weithredwr yn falch o glywed barn y Cabinet am yr adroddiad a chrybwyllodd y gwaith caled a wnaeth y Pennaeth Pobl a Newid Busnes. Rhoddodd sicrwydd mai taith bwyllog fyddai hon, a pha bynnag fodel a fabwysiadwyd, bydd er lles dinasyddion Casnewydd. Yng ngoleuni'r adroddiad diweddar ar y strwythur rheoli y cytunodd y Cyngor iddo, byddai hyn hefyd yn arwain at ddiwylliant gweithio newydd. Yr oedd angen i rai meysydd gwasanaeth ystyried yr hanfodion, a dyna pam yr oedd yr adroddiad yn sôn am symud tuag at fodel hybrid. Byddai'r Prif Weithredwr hefyd yn ystyried sylwadau'r aelodau a chydweithwyr o ran cynigion yr adroddiad.

Penderfyniad:

Cytunodd y Cabinet a'r argymhellion a amlinellwyd yn Newisiadau 2, 3 4 a 5 yn yr adroddiad, oedd yn cymeradwyo mewn egwyddor y model gweithredu newydd, yn amodol ar ymgynghori gyda'r undebau llafur perthnasol a'r staff am newidiadau i delerau ac amodau cyflogaeth, ac adolygiad gan y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd o effaith gweithio gwasgaredig ar les a chefnogaeth aelodau.

8 **Cytundeb Partneriaeth Strategol Model Buddsoddi Cydfuddiannol (MIM).**

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad, a baratowyd gan y Prif Swyddog Addysg, i'r Cabinet benderfynu arno.

Yr oedd Llywodraeth Cymru wedi caffael Meridiam Investments fel eu partner yn y sector preifat i weithio ar gyflwyno cyfleusterau addysg a chymuned dan Fodel Buddsoddi Cilyddol (MBC) Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif, a chadarnhawyd hyn fel eu dewis fodel o gyflwyno.

Daeth rhai awdurdodau lleol a sefydliadau addysg bellach eisoes i Gytundeb Partneriaeth Strategol gyda Gweinidogion Cymru oedd yn cefnogi'r trefniant hwn, gan amlinellu sut y byddai'r partion yn cydweithio dros y tymor hir fel partneriaid i gefnogi cyflwyno cyfleusterau addysg a chymuned a gwasanaethau seilwaith ledled Cymru.

Cwblhawyd y Cytundeb Partneriaeth Strategol gwreiddiol ym Medi 2020, ond yr oedd cyfle yn awr i awdurdodau lleol eraill nad oedd yn rhan o'r cytundeb i ddod i "Weithred Adlyniad" ategol. Byddai hyn yn galluogi Casnewydd i ddod yn rhan o'r Cytundeb Partneriaeth Strategol am dymor cychwynnol o 10 mlynedd.

Nid oedd y penderfyniad i ddod i'r Weithred Adlyniad hon yn awr yn ymrwymo'r Cyngor i unrhyw brosiect MCB, ac ni fyddai unrhyw effaith ariannol yn syth. Y cyfan a wnâi oedd rhoi

"sedd wrth y bwrdd" i'r Cyngor er mwyn gosod blaenoriaethau a deall beth oedd cynlluniau cyflwyno cyfranogwyr eraill ledled Cymru.

Wrth ddod i'r Weithred Adlyniad hon, yr oedd gofyn i'r Cyngor enwebu "Cynrychiolydd Cyfranogol" i eistedd ar y Bwrdd Partneriaeth Strategol, ac argymhellodd yr adroddiad y dylid enwebu'r Prif Swyddog Addysg i ymgymryd â'r rôl hon.

Er nad yn ymrwymo i brosiectau penodol, byddai mynd i'r Weithred Adlyniad hon yn sicrhau y gallai'r Cyngor gyrchu'r buddion cysylltiedig â'r Cytundeb Partneriaeth Strategol dros y 10 mlynedd nesaf o leiaf

Gwahoddodd yr Arweinydd yr Aelod Cabinet dros Addysg a Sgiliau i siarad am yr adroddiad.

Dywedodd yr Aelod Cabinet wrth gydweithwyr fod partneriaeth Addysg Cymru the 21ain Ganrif Band B yn gytundeb ategol, fyddai'n sicrhau y gallai awdurdodau lleol gydweithio i gyflwyno prosiectau cymwys er mwyn bod galluedd, medr a chanolbwynt ar yr arferion gorau.

Yr oedd yn gyfle i fanteisio ar amrywiaeth o gefnogaeth strategol a gwasanaeth seilwaith a chaffael, i alluogi datblygu prosiect neu adeiladu o'r newydd, a fyddai'n arwain y sector a rhoi gwerth am arian.

Argymhellodd yr Aelod Cabinet hefyd gymeradwyo Sarah Morgan fel cynrychiolydd cyfranogol y Cyngor ar y Bwrdd Partneriaeth Strategol gan y byddai hyn yn sicrhau cysondeb a pharhad mewn unrhyw broses o wneud penderfyniadau.

Penderfyniad:

Fod y Cabinet yn:

(a) Cymeradwyo gweithredu, cyflwyno a pherfformio cytundeb ategol i Gytundeb Partneru Strategol PAC dyddiedig 30 Medi 2020 (y "Weithred Adlyniad") ac o ddyddiad gweithredu'r Weithred Adlyniad i roi grym i delerau Cytundeb Partneru Strategol PAC dyddiedig 30 Medi 2020 a rhwymo fel rhan ohono, i hwyluso cyflwyno amred o wasanaethau seilwaith a chyflwyno cyfleusterau addysg a chymunedol;
(b) Cymeradwyo telerau'r Weithred Adlyniad a Chytundeb Partneru Strategol PAC dyddiedig 30 Medi yn Atodiad A a B yr adroddiad hwn a grynhoir yn Atodiad 1 a 2 yr adroddiad hwn er mwyn rhoi grym i argymhelliad (a), yn amodol ar argymhelliad (c) isod;
(c) Nodi y byddai'r Prif Swyddog Addysg yn cwblhau'r Weithred Adlyniad i'w gweithredu a chymeradwyo llenwi pob bwlch mewn gwybodaeth;
(d) Nodi gweithredu'r Weithred Adlyniad fel gweithred a'i hardystio yn unol ag Adran 14.5 y Cyfansoddiad; a
(e) Chymeradwyo:
(i) Penodi Sarah Morgan, Prif Swyddog Addysg fel 'Cynrychiolydd Cyfranogol' i eistedd ar y Bwrdd Partneriaeth Strategol at ddibenion Cymal 12 (*Cynrychiolwyr Partion*) Cytundeb Partneru Strategol PAC; ac
(ii) Enw, cyfeiriad a manylion cyswllt at ddibenion Cymal 40 (*Hysbysiadau*) y Cytundeb Partneru Strategol PAC;
(f) Nodwyd, wrth gytuno i ddod i'r Weithred Adlyniad nad oedd unrhyw gais yn ystod y cyfarfod hwn i fwrw ymlaen ag unrhyw brosiect, ac y byddai unrhyw benderfyniad i fwrw ymlaen â phrosiect yn cael ei ystyried ar wahân ac adrodd yn ôl i'r Cabinet mewn adroddiad(au) yn y dyfodol am benderfyniad.

9 **Adroddiad Diweddaru Covid**

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad. Adroddiad i'r Cabinet oedd hwn ar ymateb y Cyngor a'i bartneriaid i argyfwng Covid-19 o ran cefnogi'r ddinas (trigolion a busnesau) i gydymffurfio â'r cyfyngiadau presennol a'r cynnydd gyda Nodau Adfer Strategol y Cyngor a'r Cynllun Corfforaethol.

**<u>Cyfoesiad am Covid-19</u>**

- Ers cyfarfod diwethaf y Cabinet ym Mehefin, gwelodd Cymru ddyfodiad amrywiolyn Delta fel y straen amlycaf.

- Yng Nghasnewydd, yr oedd adroddiadau am achosion yn mynd at y gwasanaeth Profi, Olrhain ac Amddiffyn ac yr oeddent yn parhau'n isel ac mewn clystyrau bychain. Yr oedd y gwasanaeth, ynghyd â Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, y Cyngor a phartneriaid eraill yn mynd ati i weithio i gefnogi'r rhai yr effeithiwyd arnynt a thorri cadwyn y firws.

- Yr oedd y rhaglen frechu yng Nghymru a gyflwynwyd gan GIG Cymru, BIPAB, gyda chefnogaeth y Cyngor (Casnewydd Fyw) yn dal yn llwyddiannus wrth symud ymlaen at y rhai dan 25 i gael eu dos gyntaf a'r sawl sy''n cael eu hail ddos.

- Y mae'r rhaglen frechu a gyflwynir yng Nghymru nid yn unig yn un o'r rhai gorau yn y DU ond yn y byd, ac yr oedd yn bwysig i'r sawl nad oedd wedi cymryd eu brechiad i wneud hynny am ei fod yn amddiffyn yr unigolyn ond eraill.

- Yr oedd Map Ffordd Llywodraeth Cymru yn symud ymlaen i gyfyngiadau Lefel Rhybudd 1 dros yr haf. Cymerwyd yr agwedd bwyllog hon oherwydd ymddangosiad amrywiolyn Delta a'r angen i ddeall mwy am effaith hyn ar y rhai a frechwyd a'r rhai na chafodd frechiad.

- Yr oedd yn bwysig i drigolion a busnesau gadw at y cyfyngiadau wrth i ni fynd trwy gyfnodau olaf y map ffordd.

- Fel y dywedodd Llywodraeth Cymru, bydd yn rhaid i ni ddysgu byw gyda'r firws a pharhau yn wyliadwrus trwy gydol y flwyddyn.

- Yr oedd y Cyngor yn parhau i gyflwyno gwasanaethau, boed hyn mewn cartrefi preswyl, ymweld â chleientiaid, casglu gwastraff neu gael staff yn gweithio o gartref.

- Yr oedd ysgolion yn dal i gefnogi disgyblion lle'r adroddwyd am achosion o covid.
- Cadarnhawyd cyllid ar gyfer adleoli'r Orsaf Wybodaeth i adeilad yr Amgueddfa Ganolog a'r Llyfrgell.
- Yr oedd Casnewydd Fyw yn dal i gefnogi pobl ifanc yng Nghasnewydd gan weithio gyda phartneriaid diogelwch cymunedol.

Byddai mwy o gyfoesiadau am gynnydd y Cyngor yn cael eu rhoi y mis nesaf.

<u>Sylwadau Aelodau'r Cabinet:</u>

§ Cyfeiriodd y Cynghorydd Truman at amrywiolyn delta oedd yn cynyddu, a dywedodd fod Swyddogion Amgylchedd a Safonau Masnach yn gweithio gyda'r Heddlu i archwilio gwahanol adeiladau cyhoeddus er mwyn sicrhau bod y rhagofalon iawn ar gael i amddiffyn pobl Casnewydd. Hefyd, yr oedd swyddogion yn rhoi cyngor i fusnesau, ac ambell waith yn rhoi rhybuddion gwella a chau, yn ogystal â bod wrth law i roi cyngor a gweithio ar rai o'r clystyrau yng Nghasnewydd. Yr oedd yr Aelod Cabinet yn cefnogi'r cyngor yng Nghymru y dylid parhau i gadw pellter cymdeithasol.

- Dywedodd y Cynghorydd Davies fod amrywiolyn delta yn effeithio'n uniongyrchol ar bobl ifanc, a bod ysgolion wedi gweld yr effaith. Y gobaith oedd y byddai pobl iau yn synhwyrol ac yn cadw pellter cymdeithasol er mwyn lleihau'r risg yn ystod yr haf. Yn bwysicach, byddai prydau ysgol am ddim yn parhau, gyda'r cyngor yn darparu cynllun talebau archfarchnad i grwpiau oedran blynyddoedd 11 ac 13. Yr oedd felly'n gobeithio y byddai rhieni a gofalwyr yn manteisio ar y cynllun, oherwydd bod arian yn dal ar gael i deuluoedd.

- Teimlai'r Arweinydd yn falch iawn oherwydd y gefnogaeth a roddir gan y cyngor i blant ysgol Casnewydd.

- Canmolodd y Cynghorydd Mayer gefnogaeth gyson staff y cyngor, nid yn unig yng Nghasnewydd ond yn y DU, ar waethaf sylwadau negyddol. Yr oedd staff wedi gwneud eu gorau yn ystod y pandemig trwy roi'r trigolion yn gyntaf, oedd i'w ganmol.

Penderfyniad:

Fod y Cabinet yn ystyried cynnwys yr adroddiad ac yn nodi'r cynnydd hyd yma a'r risgiau yr oedd y Cyngor yn dal i wynebu.

10 **Adroddiad Diweddaru Brexit**

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad, sef cyfoesiad am y trefniadau masnach wedi Brexit ers mis Rhagfyr 2020.

Ers yr adroddiad blaenorol ym Mehefin 2021 yr oedd y terfyn amser (30 Mehefin 2021) i ddinasyddion yr UE/AEE ymgeisio am Statws Sefydlu yr UE wedi mynd heibio.

Dywedodd Llywodraeth y DU (y Swyddfa Gartref) fod llawer o ddinasyddion wedi gwneud cais ac wedi derbyn canlyniadau eu cais am Statws Sefydlu.

Dywedodd y Cabinet hwn, Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol eraill fod croeso i bobl o'r UE, yr AEE neu'r Swistir yng Nghymru a Chasnewydd, ac y byddai hyn yn parhau. Yr oedd eu cyfraniad i'n cymunedau, ein gwasanaethau cyhoeddus a'n busnesau yn hynod werthfawr.

Dywedodd y swyddfa Gartref y cafodd 5,020 people o bobl Statws Sefydlu a 3,350 statws Cyn-Sefydlu yng Nghasnewydd. Er bod hyn yn gadarnhaol iawn i Gasnewydd, yr oedd rhai pobl o hyd heb wneud cais ac y mae'n debyg mai hwy oedd rhai o'n dinasyddion mwyaf bregus.

Gwelodd gwasanaethau rheng-flaen y Cyngor eisoes drigolion yr UE a'u teuluoedd yn dioddef caledi oherwydd eu statws mudo. Nawr fod y terfyn amser wedi mynd heibio, y disgwyl oedd y byddai'r niferoedd yn cynyddu y flwyddyn nesaf.

Bydd Cyngor Casnewydd a'i bartneriaid yn dal i wneud eu gorau i sicrhau fod pobl yn cael cefnogaeth i arfer eu hawliau yn y DU, a chodi ymwybyddiaeth ymysg staff a gweithwyr proffesiynol erial o anghenion dinasyddion yr UE.

Ers i'r trefniadau masnach newydd gael eu sefydlu gyda'r UE, yr oedd yn amser heriol i fusnesau ledled Cymru i ymgyfarwyddo a chydymffurfio â'r gofynion rheoleiddio newydd.

Yr oedd yr economi ehangach hefyd yn wynebu sawl her gyda chadwyni cyflenwi, a chost nwyddau a gwasanaethau yn codi wrth i alw o du cwsmeriaid gynyddu.

Yr oedd rhai sectorau yn yr economi megis trafnidiaeth a lletygarwch hefyd yn wynebu prinder yn y farchnad lafur. Er y gellid priodoli llawer o hyn i argyfwng Covid, yr oedd tystiolaeth hefyd fod Brexit yn cael effaith ar rannau penodol o'r economi.

Hyd yma, nid oedd y Cyngor a chyflwyno rhai o'i brosiectau wedi gweld unrhyw feysydd pryder gwirioneddol o ran cyflenwi a chostau. Dyma faes y byddai'r Cyngor yn parhau i gadw golwg arno dros y chwe mis nesaf.

Gan na allai'r DU bellach gyrchu arian Ewropeaidd, a bod prosiectau presennol a gyllidwyd gan yr UE yn dod i ben dros y 18 is nesaf, lansiodd Llywodraeth y DU ddwy gronfa newydd: Cronfa Codi'r Gwastad a Chronfa Adolygu Cymunedol y DU i awdurdodau lleol ledled y Deyrnas Unedig i ymgeisio amdanynt.

Ar waetha'r amser byr oedd gan y Cyngor i baratoi a chyflwyno ceisiadau, gallodd Casnewydd gyflwyno prosiectau fyddai o les i Gasnewydd a'i chymunedau.

Petai'n llwyddiannus, yr oedd Cronfa Codi'r Gwastad yn gyfle cyffrous i Gasnewydd adfywio Chwarter Gogleddol y ddinas gan 'wyrddio' ardaloedd a strydoedd allweddol o gwmpas yr orsaf reilffordd, gan fod yn borth i weddill canol y ddinas.

Derbyniasom 11 cais i Gronfa Adfywio Cymunedol y DU gan y sectorau preifat, nid-am-elw, elusennol ac eraill yr economi.

Byddai'r ceisiadau a gyflwynir gan y Cyngor yn cyfrannu at flaenoriaethau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Cyngor wrth i ni ddod allan o bandemig Covid.

Er holl waith y Cyngor a mudiadau eraill, nid oes gwarant y bydd ceisiadau Casnewydd a'r mudiadau yn llwyddiannus, am i Lywodraeth y DU wneud y broses yn un gystadleuol

Byddai'r cyngor yn cael gwybod am ganlyniadau'r naill gais a'r llall yn nes ymlaen ym mis Gorffennaf.

Penderfyniad:

Ystyriodd y Cabinet gynnwys yr adroddiad a nodi ymateb y Cyngor i Brexit.

11 **Rhaglen Waith**

Dyma'r adroddiad misol rheolaidd ar y rhaglen waith.

Cynnig derbyn y rhaglen a gyfoeswyd.

Penderfyniad:

Cytunodd y Cabinet ar y Rhaglen waith am Fehefin 2021 hyd at Fehefin 2022.